

Teitl y swydd	Prif Gyflwynydd		
Teulu'r swydd	Cyflwynydd	Band	E

Pwrpas y swydd

Cyflwyno rhaglenni byw sy'n cael eu harwain gan newyddion neu faterion cyfoes, ymateb ar yr awyr i straeon sy'n torri, bod ar yr awyr dros 80% o'r amser, cyflwyno digwyddiadau byw a deunyddiau wedi'u paratoi a chynnal cyfweiliadau byw â'r rhai sydd yn y newyddion.

Rhan o'r tîm newyddiadurol sy'n paratoi'r rhaglen ar gyfer ei darlledu.

Efallai mai nhw fydd yr unig gyflwynydd neu'n gweithio gyda chyd-gyflwynydd.

Bydd un o'r canlynol yn berthnasol:

- Darlledu ar BBC World News neu BBC News Channel sy'n cynnwys cynnwys arbenigol e.e. busnes.
- Darlledu i ardal neu endid gwleidyddol penodol, fyddai gyda'i gynulliad etholedig ei hun fel arfer.
- Darlledu i ranbarth daearyddol, y tu allan i'r DU.

Atodiad

Rydym yn chwilio am gyflwynydd newyddion ar gyfer rhaglen newyddion foreol Radio Cymru, y Post Cyntaf. Mae'r rhaglen yn darparu gwasanaeth newyddion cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r newyddion diweddaraf, y chwaraeon, a straeon o bob math o Gymru ac ar draws y byd. Yn ogystal a sgiliau holi a chyflwyno rhagorol, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus ddealltwriaeth fanwl o anghenion y gynulleidfa Gymraeg, ac o wleidyddiaeth a'r materion sydd o bwys yng Nghymru.

Y prif gyfrifoldebau ac atebolrwydd

- Arddull cyflwyno safonol, sy'n rhugl, yn ennyn diddordeb y gwylwr/gwrandäwr.
- Gallu addasu arddull ar gyfer gwahanol bynciau a gwahanol gynulleidfaoedd.
- Glynu wrth Ganllawiau Golygyddol y BBC bob amser gan sicrhau didueddrwydd a chydbwysedd.
- Cyflwyno'n fyw ac yn gallu addasu i straeon sy'n datblygu tra ar yr awyr.
- Darparu newyddion amserol, arbenigol ac awdurdodol a dadansoddiadau ar newyddion a digwyddiadau o ddiddordeb i gynulleidfaoedd y BBC
- Cyfweld arbenigwyr a'r rhai sy'n rhan ganolog o straeon. Cyfweld llunwyr polisi o sefydliadau rhyngwladol neu yn y DU, gan eu dwyn i gyfrif lle bo hynny'n berthnasol.
- Darlledu mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb, yn ddifyr ac yn hawdd i gynulleidfa nad yw'n arbenigol ei deall, gan wneud materion cymhleth yn hygyrch.
- Gweithredu fel llysgennad ar ran y BBC i'r gynulleidfa dan sylw, gan fod yn gyfforddus â llunwyr polisiâu, pobl uchel eu proffil, a chynulleidfaoedd.
- Cynhyrchu syniadau a straeon; cyfrannu at ymdrin ag eitem neu raglen yn greadigol; darparu cynigion ac ymdriniaethau clir; sicrhau cysondeb o ran cynnwys, ansawdd ac arddull.
- Cymryd cyfrifoldeb newyddiadurol dros gynnwys y maent yn ymwneud ag ef o ran ymchwilio/cynhyrchu/ysgrifennu, boed hwy eu hunain yn cyflwyno'r darn hwnnw o waith ai peidio.

- Gwneud y defnydd gorau o dechnolegau newydd – yn enwedig datblygiadau yn y cyfryngau cymdeithasol – wrth gyflwyno ein newyddiaduraeth i gynulleidfaedd. Gosod esiampl o ran dysgu sut i weithredu systemau newydd ac addasu i wahanol ddulliau gweithio.
- Cydweithio'n agos ag aelodau eraill o'r tîm ac ag adrannau eraill yn y BBC i sicrhau bod cynnyrch yn cael ei ddsbarthu, yr osgoio dyblygu, ac i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu cynnal.
- Creu a chynnal rhestrau cysylltiadau amrywiol; casglu a dosbarthu gwybodaeth gydag aelodau eraill o'r tîm.
- Dull trefnus o weithio, a'r gallu i gadw at derfynau amser tynn heb lawer o oruchwyliaeth.
- Cyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi lechyd a Diogelwch y BBC bob amser

Gwybodaeth, sgiliau, hyfforddiant a phrofiad

Hanfodol

- Cyflwynydd profiadol ac egwyddorol sydd wedi profi eu gallu ac wedi meithrin perthynas â'r gynulleidfa.
- Dangos barn gytbwys a diduedd.
- Dangos medrusrwydd o ran defnyddio technoleg darlledu a thechnoleg sy'n seiliedig ar gyfrifiaduron, gan sicrhau bod gennych yr wybodaeth ddiweddaraf o ran datblygiadau yn y maes hwn.
- Sgiliau cadarn i weithio mewn tîm, a'r gallu i feithrin cysylltiadau cryf â phobl allweddol mewn rhannau eraill o'r BBC.
- Gallu cyfleu syniadau am straeon a rhaglenni a chyfrannu'n llawn at y broses gynllunio.
- Dangos ymrwymiad i wella amrywiaeth yn y BBC a deall sut y gall gwahaniaethau unigol fod yn fanteisiol i'r BBC.
- Gallu bod yn hyblyg a gallu addasu er mwyn cynnal perfformiad, yn enwedig dan bwysau, yn unol ag amserlenni a blaenoriaethau ac amgylchiadau sy'n newid.
- Dealltwriaeth o weithdrefnau lechyd a Diogelwch a sut maent yn berthnasol i ddarlledu

Effaith y swydd

Gwneud penderfyniadau

Gallu ymateb i newidiadau wrth ddarlledu rhaglen fyw. Gallai fod yn wyneb/llais y rhaglen ac yn gysylltiedig yn gryf â'r BBC ar gyfer cynulleidfa'r rhaglen honno. Gallu amrywio cynnwys cyfweiliad pan fydd ar yr awyr. Gallu gweithio gyda gwesteion uchel iawn eu proffil ar yr un pryd â chynnal agwedd broffesiynol, dawel a chredadwy iawn.

Gallu cydymffurfio â safonau a pholisïau golygyddol.

Cwmpas

Yn debygol o gynnal rhaglenni ar eu pen eu hunain. Disgwylir cynnal cyfweiliadau byw neu wedi'u recordio gyda gwesteion yn y stiwdio neu i lawr y llinell, weithiau ar fyr rybudd neu heb rybudd.

Gwybodaeth arall

At ddefnydd y Tîm Dyfarnu yn unig	
Cod y Swydd	
Diffiniad:	Cynnwys

Mae'r disgrifiad hwn o'r swydd yn ddatganiad ysgrifenedig o nodweddion hanfodol y swydd, gyda'i phrif gyfrifoldebau, ac mae'n cynnwys cofnod o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer ei chyflawni i lefel foddhaol. Nid rhoi cofnod cyflawn, manwl o bob agwedd ar y dyletswyddau sy'n rhan o'r swydd yw'r bwriad.